



Dyma



Catrin Glyndŵr



 Cadw



Rydych ar fin cwrdd â
chymeriad o'r gorffennol



Ei henw yw Catrin Glyndŵr a hi yw merch y gwrthryfelwr
Cymreig o fri, Owain Glyndŵr.

Roedd Owain Glyndŵr yn byw dros chwe chan mlynedd yn ôl. I
ddechrau, roedd Owain ar delerau da gyda'r Saeson. Yr oedd
yn gwasanaethu'r brenin, Rhisiart Ail, fe fu'n byw yn Llundain
am gyfnod ac yn brwydro ochr yn ochr â'r Saeson yn erbyn yr
Albanwyr.



Roedd yn ddyn cyfoethog iawn a siaradai Saesneg a Ffrangeg yn ogystal â Chymraeg. Fe fagwyd Catrin gyda'i theulu yn agos at y ffin i Loegr. Arglwyddi'r Gororau oedd ei thylwyth ac un o'u tasgau oedd amddiffyn y ffin ar ran Brenin Rhisiart.

Yna fe gipiodd Harri 4ydd y goron oddi wrth Rhisiart ac fe newidiodd hyn i gyd. Nid oedd Harri'r un mor gyfeillgar tuag at Owain ac fe aethant yn elynion.



Castell Sycharth ger Croes Oswallt yw cartref Catrin ac roedd y croeso yno mor gynnes i bob teithiwr fel nad oedd ‘Na gwall na newyn, na gwarth, na syched fyth yn Sycharth’.

Wedi'i adeiladu o bren, roedd y castell mewn dwy ran. O amgylch y tu allan yr oedd yna feili lle'r oedd y rhan fwyaf o'r bobl yn byw wedi'u hamddiffyn gan fur. Tu mewn i'r beili yr oedd yna domen ac ar ben honno roedd y tŵr ble fyddai'r cyfoethogion yn byw. Petai'r castell o dan ymosodiad fe redai pawb tua'r domen a chodi'r bont. Oddi yno fe fyddent yn trio gwrthsefyll eu gelynion.



Mae Catrin yn briod â dyn o'r enw Syr Edmwnd
Mortimer. Yn wreiddiol fe fu'n brwydro dros frenin
Lloegr ac fe'i cipiwyd gan dad Catrin ond ôl cyfnod
fel carcharor fe newidiodd ei blaid ac fe ymunodd â'r
gwrthryfel.




Fe ymosododd y Saeson ar Gastell
Sycharth ac wedi darganfod bod
Owain Glyndŵr a'i deulu wedi dianc
fe'i llosgwyd yn ulw.

Yn ffodus, fe ddihangodd Catrin a'r
lleill i Harlech lle'r oedd y castell
cerrig yn rhoi gwell amddiffynfa
iddynt.


A dyna'r lle yr oeddynt yn disgwyl
am ymosodiad y Saeson.




Map i Castell Harlech



Map i Castell Harlech





Amser Gweithgaredd



Dewch o hyd i Owain!

Gwnewch bypedau wedi'u selio ar Owain Glyndŵr a'i deulu. Meddyliwch yn ofalus sut yr oeddynt yn gwisgo a beth oedd eu pryd a'u gwedd, yna tynnwch lun o'r cynllun cyn i chi ddechrau adeiladu eich pypedau.

Efallai y medrwch wnïo neu ludo defnyddiau sgrap at ei gilydd er mwyn eu gwneud.



neu fe allech ddefnyddio darnau llyfn o gardbord wedi'u hymuno â'i gilydd gan binnau hollt a'u lliwio.

Wedi i chi greu eich pyped, chi'n barod i ailadrodd hanes Owain Glyndŵr, ei deulu a'i gefnogwyr. Ysgrifennwch eich stori, ymarferwch a'i pherfformio.

Beth am i chi ei ffilmio fel bod eraill yn medru mwynhau eich gwaith!

Adeiladwch gastell!

1



Defnyddiwch stribedi o gardbord, mwydion papur neu unrhyw ddefnyddiau eraill y medrwch eu darganfod i adeiladu castell i ddiogelu Catrin a'i theulu.

2

Astudiwch blaniau gestyll gwahanol i ysbrydoli eich cynllun chi. Cofiwch fod gan nifer o gestyll furiau allanol yn amgylchynu'r beili ble roedd y mwyafrif o bobl yn byw a chadarnle o dŵr a safai ar ben bryn - sef y domen.




3



Efallai fe allwch greu pont godi er mwyn rhwystro ymosodwyr rhag cael mynediad i'r tŵr. I helpu Catrin i ddianc, fe fydd yn rhaid i chi gynllunio twneli a fydd yn ei galluogi i ffoi heb i'r gelyn ei gweld. Gorau po fwyaf o dwneli - gorau ei chyfle i ddianc.

Cwricwlwm



Dyniaethau

* Mae ymholiad, archwiliad ac astudiaeth yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

*Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth ac yn cael eu canfod, dehongli a'u cynrychioli mewn amryw ffyrdd.

*Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac amrywiol ac yn cael eu naddu gan weithredoedd a chredoau dynol.



Celfyddydau mynegiannol

*Mae gwaith creadigol yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, yn defnyddio'r synhwyrâu, ysbrydoliaeth a'r dychymyg.